**CYNGOR CYMUNED TROEDYRAUR**

**COFNODION Y CYFARFOD BLYNYDDOL A GYNHALIWYD AR FAI 7fed, 2024**

**Yn NEUADD BENTREF COEDYBRYN am 7.30 y.h.**

| | | |
|---|---|---|
| **Yn bresennol** | Cyng. Ceri Jones ( Cadeirydd ) | Cyng. Sharon Thomas |
| | Cyng. Emyr Jones | Cyng. Mark Davies |
| | Cyng. Rob Jones | Cyng.Sian Williams |
| | Cyng. Teifi Evans | |

**Clerc** Rhian Jones

| **Eitem ar yr Agenda** | **Gweithredu** | **Gan bwy** | **Erbyn pryd** |
|---|---|---|---|
| Croesawodd Y Cadeirydd bawb i'r Cyfarfod Blynyddol. | | | |
| 1 . Ymddiheuriadau | Cyng. Llyr Evans, Cyng. Maldwyn Lewis a'r Cyng.Carol Davies. | | |
| 2. Datgan Diddordeb | DIM | | |
| 3. Cofnodion y Cyfarfod diwethaf. . | Trafodwyd gofdnodion o gyfarfod blynyddol 2023 a gynhaliwyd ar Fai 2il, 2023 yn Neuadd Bentref Rhydlewis. | | |
| 4.Materion yn codi | DIM | | |
| 5. Cadarnhau'r Cofnodion | Cadarnhaodd Y Cyng Mark Davies fod y cofnodion yn gywir ac eiliodd y Cyng Sharon Thomas. | | |
| 6. Adroddiad Blynyddol | Derbyniodd pawb gopi o'r Adroddiad Blynyddol a cadarnhaodd pawb oedd yn bresennol ei fod yn gywir. | | |
| 7. Swyddogion 2024/25 | Er mae Y Cyng.Roger Davies oedd yr Is-gadeirydd llynedd, oherwydd iddo ymddeol o'i rol ar y Cyngor roedd rhaid ethol Cadeirydd ac Is-Gadeirydd newydd am y flwyddyn 2024/25.<br><br>Cadeirydd - Cynigiodd y Cyng Mark Davies ethol y Cyng Sian Williams fel Cadeirydd swyddogol am y flwyddyn 2024/25 ac eiliwyd gan y Cyng Emyr Jones.<br><br>Is-Gadeirydd – Cynigiodd y Cyng Teifi Evans ethol y Cyng.Sharon Thomas fel Is-gadeirydd swyddogol am y flwyddyn 23/24 ac eiliwyd y cynnig gan y Cyng.Rob Jones.<br><br>Etholwyd y Clerc Rhian Jones fel y Swyddog Ariannol Cyfrifol. | | |

Diolchodd y Cyng.Ceri Jones i bawb am eu cefnogaeth dros y flwyddyn, a diolchodd y Cyng.Sian Williams ar ran pawb i'r Cyng Ceri Jones am ei holl waith caled fel Cadeirydd dros y flwyddyn diwethaf.